

Y Deg Gorchymyn



Llyfrgell Sleidiau [clic](#)

GWEDDI

Boed i ni deimlo dy bresenoldeb a'th fendith yn ein hoedfa heddiw. Diolch am gyfle newydd i'th addoli ac i lawenhau yn dy neges. Amen

EMYN 'Gwawriodd y Bore'

[Bydd angen taflen gyda geiriau'r emyn arni neu ddefnyddio'r PowerPoint]

Gwawriodd y bore,
Gwenodd yr heulwen,
Deffrodd y blode
O gylch fy nhŷ.
'R adar a ganodd,
'R awel chwibanodd,
'R afon sisialodd –
Diolch i ti.

Gwawriodd y bore,
'Gorais fy llygaid,
Llanwodd pelydre
Fy 'stafell i.
Codais yn heini,
Gwelais fy nheulu,
Cenais fy ngweddi
Diolch i ti.

Gwawriodd y bore,
Bore o obaith.
Gobaith am ole
I'r gwyn a'r du.
Gwelaf yn torri
Dros orwel fory
Well dydd na heddi –
Diolch i ti.

ARWEINYDD

Fe gawsom i gyd y profiad o ddarllen y Deg Gorchymyn yn yr Ysgol Sul neu glywed y gorchymynion yn cael eu darllen yn y cwrdd. Dewch i ni gael gwrando arnynt eto.

DARLLENIAD Ecsodus 20:2–17 (Y Deg Gorchymyn)

GWEDDI

Ein Tad, sut allwn ni dy gyflwyno i eraill os nad wyt ynom ni?
Felly, deuw'n a cherddwn y 'llwybr syml' atat – llwybr tawelwch a gweddi sy'n arwain at ffydd, cariad, gwasanaeth, a'th dangnefedd Di.
Boed i'n hymddygiad a'n hymarweddiad fod yn deilwng ohonot ti. Gwna ni'n ufudd i dy orchmynion Di, a phâr i ni sylweddoli mor bwysig yw dy neges o gariad a maddeuant. Dysga ni i wneud y defnydd gorau o'n hamser.
Diolch am adfer ein hegri ac ailgyfeirio'n llwybrau, am adfer llawenydd i'n trem a'n teimlad. Diolch am roddi'n ôl i ni ein bodlonrwydd, a rhoddi i ni dy heddi. Gwelwn wedyn Grist drachefn yn wynebaw pobl eraill ar ochr heulog y stryd.
Mae yna rai yn ein cymdeithas ni sydd angen dy gymorth heddiw; dangos dy hun iddynt, cwyd eu calonnau a bydd yn fodd i gau eu clwyfau.
Cynorthwya ni i ddangos dy lawenydd Di i'n cyd-ddynion fel bod pawb yn rhoi eu hysgwydd dan faich y tlawd a'r anghenus.
Yn ysbryd llawenydd dy neges di yr ydym yn uno i gydadrodd y weddi a ddysgodd dy fab Iesu Grist i ni:
Ein Tad . . .

EMYN 396 'Sicrwydd Bendigaid'



ARWEINYDD

Mae gan bopeth mewn bywyd ei reolau; heb reolau a chanllawiau, yr hyn sydd gennych yw anarchiaeth wrth gwrs. Rydym yn treulio blynyddoedd cynharaf ein plant yn ceisio'u haddysgu a'u hyfforddi yn beth sy'n iawn a beth sydd ddim, beth sy'n cael ei ganiatáu a beth na ddylid ei wneud.

Ym myd campau mae rheolau'n hanfodol, er y byddai rhai'n dadlau bod y rheolau ym myd rygbi wedi mynd yn ddryslyd tu hwnt. Ond rydych chi'n gwybod pam maen nhw'n ddryslyd – pe bai Nigel Owens yma fe fyddai'n cytuno â fi, dwi'n siŵr – y rheswm pam bod rhai rheolau'n ddryslyd yw eu bod nhw'n dod dan ddehongliad yr unigolyn. Fe allwch chi a fi ddehongli ambell reol ar gae rygbi yn wahanol.

Beth am reolau bywyd, felly? Ydy'n dehongliad ni i gyd yn wahanol?

Am wn i mai'r set gyntaf o reolau oedd y deg gorchymyn a ddarllenwyd ar ddechrau'r oedfa. Dyma reolau a chanllawiau sylfaenol bywyd y Cristion.

Gadewch i ni geisio deall y deg gorchymyn gwreiddiol heddiw.

1. Na chymer dduwiau eraill ar wahân i mi . . .

O edrych ar ein dyddiau ni, mae'n wir dweud bod pobl wedi gwneud duwiau o lawer o bethau erbyn heddiw, ond y gwir a saif – does ond un Duw.

2. Na wna i ti ddelw gerfiedig . . .

Allwch chi ddim addoli pethau o wneuthuriad dyn, er y byddwn yn dadlau bod nifer yn ceisio gwneud hyn heddiw mewn amryw ffyrdd.

3. Na chymer enw'r Arglwydd dy Dduw yn ofer . . .

Y mae a wnelo'r gorchymyn yma â chamddefnyddio'r enw dwyfol, er enghraifft wrth dyngu llw yn enw Duw.

4. Cofia'r dydd Saboth, i'w gadw'n gysegredig . . .

Fe wyddom fod Duw wedi nodi'r Saboth fel dydd o orffwys. Wel, os oedd pobl erstalwm yn parchu'r gorchymyn yma, dyma i chi un mae ein cenhedlaeth ni wedi'i chwalu'n deilchion.

5. Anrhydedda dy dad a'th fam . . .

Rydym i gyd wedi bod yn euog o dorri'r gorchymyn hwn ar ryw adeg, rwy'n siŵr, ond erbyn heddiw mae'r diffyg parch at oedolion wedi lledu i ysgolion ac i strydoedd ein trefi yn gyffredinol.

6. Na ladd . . .

Gwrthodir hawl dyn i gymryd y gyfraith i'w ddwylo ei hun wrth gywiro cam yn erbyn ei berson. Yn sylfaen iddo mae'r argyhoeddiad fod bywyd dyn yn gysegredig. Ie, dyma'r gorchymyn mwyaf, mae'n siŵr, ac un o'r rhai o dorrwyd amlaf ar hyd y canrifoedd.

7. Na odineba . . .

Trosedd yn erbyn cysegredigrwydd priodas oedd godinebu. Yn ein hoes ni, wrth gwrs, mae tor-priodas mor gyffredin fel nad yw pobl yn synnu dim ato bellach. Dyw priodas ddim yn hawdd i neb – mae'n rhaid gweithio ar briodas, ymdrechu, cyfaddawdu a maddau.

8. Na ladrata . . .

Mae'n adlewyrchiad trist o'n hoes ni a'n cymdeithas fod ein carchardai'n orlawn o droseddwyr.

9. Na ddwg gamdystiolaeth yn erbyn dy gymydog . . .

Bwriad y gorchymyn yma oedd diogelu rhag rhoi camdystiolaeth mewn llys barn. Peth ffôl fyddai awgrymu nad yw hyn yn digwydd heddiw.

10. Na chwennych . . .

I mi, mae hwn yn un o'r gorchmynion anoddaf i bawb. Mae yna drafodaethau wedi bod ynglŷn â beth yn union a waherddir yma – ai'r emosiwn mewnol ynteu'r weithred o feddiannu sy'n ganlyniad i'r chwennych hwnnw? Does dim o'i le, hyd y gwela i, mewn dymuno cael rhywbeth am ei fod yn dda neu'n plesio. Ond y gwir yw bod nifer ohonom yn dymuno cael pethau na allwn ni byth eu fforddio.

Mae Iesu Grist yn y bregeth ar y mynydd yn mynegi y dylid ufuddhau i'r gorchmynion yma pan fydd y galon yn dweud wrthy ch am wneud, nid ufuddhau iddynt dim ond oherwydd eu bod nhw'n ddeddfau. Fel Cristion, wrth gwrs, mae'r egwyddorion a ddysgwn yn y Beibl yn ein harwain i ufuddhau i'r gorchmynion yma o'r galon gan ein bod yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg.

Fe hoffwn gloi trwy ddyfynnu adnod o efengyl Ioan, adnod 21 o bennod 14:

Y rhai sy'n derbyn beth dwi'n ei ddweud ac yn gwneud beth dwi'n ddweud ydy'r rhai sy'n fy ngharu i.

EMYN 142 'Cyfrif y bendithion'**Y FENDITH**

Diolch am dy gariad tuag atom, a diolch am dy ofal ohonom.

Erfyniwn am dy fendith i wynebu'r wythnos newydd sydd yn agor o'n blaenau.

Yn enw Iesu Grist, ein Gwaredwr.

Amen

(G.E.J.)